## P-04-541 Cefnogaeth i'r Mentrau Iaith

Annwyl aelodau'r Pwyllgor Deisebau,

Rydym yn falch o wybod y byddwch yn ystyried y ddeiseb *Cefnogaeth i'r Mentrau Iaith* yn eich cyfarfod nesaf ar 29 Ebrill 2014, ac mawr obeithiwn y byddwch yn gallu penderfynu gweithredu ymhellach arni yn dilyn y cyfarfod hwnnw.

Mae'r Mentrau Iaith yn fudiadau cymunedol sy'n gweithredu er budd yr iaith Gymraeg yn lleol ac maent yn darparu ystod eang o weithgareddau a phrosiectau cyfrwng Cymraeg i bobl o bob oedran a chefndir yng nghymunedau Cymru. Mae adroddiad Prifysgol Caerdydd, a gomisiynwyd gan Llywodraeth Cymru, yn datgan y dylai gwaith y Mentrau barhau a datblygu. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi nad yw'r Mentrau yn derbyn cyllid craidd digonol i weithredu i'w llawn botensial. Gallwch ddarllen yr adroddiad yma http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130130-adroddiad-y-mentrau-cy.pdf

Penderfynodd Dyfodol i'r Iaith gyflwyno'r ddeiseb i gefnogi'r Mentrau yn dilyn yr arolwg o'u gwaith er mwyn galw ar y Cynulliad i ofyn i Llywodraeth Cymru gryfhau ei chefnogaeth i'r Mentrau, ac ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol yn dilyn yr arolwg hwnnw.

Roeddem yn falch iawn felly i glywed y Prif Weinidog yn datgan ei gefnogaeth i'r Mentrau Iaith mewn sawl datganiad yn ddiweddar, ac ar lawr y Cynulliad, yn dweud ei fod yn ystyried y Mentrau yn "offerynnau pwerus a gwerthfawr", a'i fod am "sicrhau bod eu gwaith yn parhau yn y dyfodol." Rydym yn credu nawr ei bod yn amserol bod y Prif Weinidog a'r Llywodraeth yn gweithredu er mwyn gwneud gwir wahaniaeth i ddyfodol y Mentrau a'r iaith Gymraeg trwy fuddsoddi ynddynt.

Fe fyddwn ni'n falch iawn i drafod ymhellach gyda chi, ac fe fyddwn yn hapus iawn i ddod i un o'ch cyfarfodydd yn y dyfodol agos er mwyn trafod sut medrwch chi fel Pwyllgor ein cynorthwyo i gefnogi'r Mentrau Iaith er budd y Gymraeg ar draws Cymru.

Pob dymuniad da,

Heini Gruffudd